



Promoting improvements  
in policing to make  
everyone safer

## Arweinyddiaeth

### **Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?**

Mae arweinyddiaeth yr heddlu'n allweddol o ran galluogi llu i fod yn effeithiol, effeithlon a chyfreithlon. Fe wnaeth yr arolygiad hwn ganolbwyntio ar sut mae llu'n deall, datblygu ac arddangos arweinyddiaeth trwy ei ddatblygiad sefydliadol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n cyfathrebu'n dda gyda'i weithlu a sefydliadau eraill fel ei gilydd. Mae ei ddisgwyliadau ynghylch arweinyddiaeth yn cael eu deall yn eithaf da ar draws y llu ac mae arweinwyr yn annog her. Mae llai o ddealltwriaeth o 'egwyddorion arweinyddiaeth' adolygedig y llu, ac er bod y llu'n bwriadu cyfathrebu â swyddogion a staff ynghylch y rhain, dim ond ychydig o drafodaeth sydd wedi digwydd gyda chyflogeion ynghylch datblygu'r egwyddorion hyn.

Mae'r llu'n deall ei alluoedd arweinyddiaeth ar draws rhengoedd, graddau, rolau a thimau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatrys pryderon ynghylch datblygu tîm a dynameg tîm. Yn ddiweddar mae wedi cyflwyno system arfarnu flynyddol ffurfiol ac ymagwedd ar reoli talent. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, nid oedd yr holl swyddogion a staff yn elwa ar y system newydd hon. Yn y gorffennol, yn absenoldeb unrhyw ymagwedd ffurfiol neu systematig, roedd y llu'n dibynnu ar reolwyr llinell i nodi problemau datblygu unigol a phroblemau tîm. Mae ansawdd a rheoleidd-dra cyfarfodydd un wrth un gyda rheolwr llinell yn anghyson.

Mae'r llu'n defnyddio amrediad o ddulliau i ddatblygu talent, ond nid yw'r rhain yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol nag yn cael eu deall yn dda gan y gweithlu. Yn absenoldeb cynllun ffurfiol i reoli talent, mae'n rhaid i'r llu ddibynnu ar reolwyr llinell uniongyrchol i ddewis staff ar gyfer dyrchafiad a chyfleoedd datblygu. Mae'r llu wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau arwain, ac mae ei dimau'n amrywiol o ran profiad, cefndir a sgiliau. Mae Heddlu Gogledd Cymru'n annog arloesi. Roedd swyddogion a staff fel ei gilydd yn teimlo bod y llu'n croesawu syniadau a her newydd.